



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

9 Mehefin 2022

Annwyl Huw,

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Ysgrifennais atoch yn ddiweddar yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am ail gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Roedd hwn i fod i gael ei gynnal ar 7 Mehefin, ond bydd yn cael ei gynnal ar 16 Mehefin yn lle hynny.

Mae gweddill manylion y cyfarfod yr un fath. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Weinidog Llywodraeth yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Adfer o COVID, John Swinney ASA. Bydd Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod.

Rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn y cyfarfod rhithwir hwn yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth y DU a'r argyfwng costau byw.

Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD